Gwybodaeth hawdd ei ddeall

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

# Prawf Rhybudd Brys Llywodraeth y DU



## Fe fydd Llywodraeth y DU yn profi ei system rhybuddio brys ar 7 Medi 2025.




Dyma wasanaeth gan Lywodraeth y DU a fydd yn eich rhybuddio os oes perygl i fywyd gerllaw. Mae fel larwm tân ar gyfer eich ffôn.



Mewn argyfwng, fe fydd eich ffôn symudol neu dabled yn cael rhybudd gyda chyngor am sut i gadw'n ddiogel.




Fe fydd y rhybudd prawf tua **3:00pm ddydd Sul 7 Medi 2025.**

# Beth fydd yn digwydd




Fe fydd pob ffôn symudol a thabledi sy'n defnyddio 4G a 5G yn cael rhybudd.

Mae eich ffôn symudol neu dabled yn gallu:



- Gwneud sŵn uchel, hyd yn oed os ydy'n cael ei osod ar tawel.
- Dirgrynu.
- Darllen neges allan.




Fe fydd hyn yn para am tua 10 eiliad.



Fe fydd neges ar eich sgrin yn dweud:

**This is a test of Emergency Alerts, a UK government service that will warn you if there's a life-threatening emergency nearby.**



Does dim angen i chi gymryd unrhyw gamau. Mewn argyfwng go iawn, dilynwch y cyfarwyddiadau yn y rhybudd i gadw eich hun ac eraill yn ddiogel.





Ewch i [gov.uk/alerts/about.cy](gov.uk/alerts/about.cy) am fwy o wybodaeth.



Does dim angen i chi wneud unrhyw beth. Prawf ydy hwn i wneud yn siŵr bod y rhybuddion yn gweithio.




Efallai y byddwch chi hefyd yn cael yr un neges yn Gymraeg.




Dydy'r Llywodraeth ddim angen eich rhif ffôn nac unrhyw un o'ch manylion i anfon y rhybudd atoch.



Does dim rhaid i'ch ffôn symudol na'ch tabled gael data symudol na WiFi i gael y rhybudd.



Os ydych chi'n gyrru pan fyddwch chi yn cael y rhybudd, peidiwch â chodi'r ffôn. Cariwch ymlaen i yrru.



Os nad ydych chi eisiau cael y rhybudd prawf, rydych chi'n gallu diffodd eich ffôn neu ei roi ar y modd awyren.



Os nad ydych chi eisiau cael unrhyw rybuddion brys yn y dyfodol, fe fydd angen i chi:



- Edrych yn eich Gosodiadau ffôn a dod o hyd i rybuddion brys.

- Diffodd rhybuddion difrifol ac eithafol.



Os ydy hyn ddim yn gweithio, gofynnwch i'ch darparwr ffôn.

# Pam fod Llywodraeth y DU yn gwneud y prawf



Maen nhw eisiau gwneud yn siŵr bod y rhybudd yn gweithio. Yn y dyfodol mae'r llywodraeth neu'r heddlu yn gallu defnyddio rhybuddion i ddweud wrthych chi am:



- llifogydd



- tanau



- tywydd drwg iawn



Fyddan nhw ddim yn anfon rhybuddion atoch yn aml iawn. Mae'r rhybuddion yn helpu i'ch cadw'n ddiogel.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.